# CHAINING METHOD

CARDIFF
CAERDYDD



## What is chaining?

Chaining is a teaching method where in which sub-skills are reinforced in a sequence to enable the learner to perform more complex behaviours. For example, in teaching a child to tie shoes, each individual step, from tightening the laces to making the parts of the knot, would be taught and reinforced until the child can perform the complete task.

## Why use chaining method

Children with additional earning needs may need chaining to learn tasks that others can learn by watching and imitating. It may also be the case that additional needs learners lack the innate desire to learn certain tasks.

In order to teach skills the adult will need to provide positive praise on the completion of each "link" in the "chain". So, for example, in the case of zipping a coat, the adult might plan to teach the skills over time—and reward each step along the way:

1. Find your coat
2. Put your coat on independently
3. Engage the zipper and pull it up
4. Complete the entire sequence on your own without support (final reward)

## Backward chaining

Sometimes chaining may be too involved for a learner who can become frustrated or get lost going through a chain of steps. In a situation such as this, backward chaining may be a good option. In backward chaining, a parent or teachers completes most of the tasks in a chain, allowing the child to finish the final task. This gives the child an experience of success and completion with every attempt. As this final task becomes easier, the adult can then slowly fade back and have the child complete more items in the chain.

## Example of Backward Chaining

Getting a zipper started can be super-tricky, but zipping it up once it's on track is super-simple. Divide the job into these steps:

1. Thread the bottom piece into the zipper piece.
2. Slowly start the zipping to make sure the zipper is on track.
3. Pull the zipper the rest of the way up.

You can give your child the job of triumphantly whipping that zipper up to the top long before he or she has the ability to put the two parts of the zipper together.

## Top Tips

- Firstly create a list of the task steps. This is commonly known as task analysis
- Provide hand over hand prompting if the child is unable to learn by having it modelled
- Provide positive reinforcement at every step.

# DULL CADWYNO



## Beth yw Cadwyno?

Mae cadwyno yn ddull addysgu lle caiff is-sgiliau eu hatgyfnerthu mewn cyfres er mwyn galluogi'r dysgwr i berfformio ymddygiadau mwy cymhleth. Er enghraifft, wrth ddysgu plentyn i glymu ei esgidiau, byddai pob cam unigol, o dynhau'r careiau i wneud rhannau o'r cwlwm, yn cael eu dysgu a'u hatgyfnerthu hyd nes bo'r plentyn yn gallu cwblhau'r dasg yn gyflawn.

## Pam defnyddio'r dull cadwyno

Efallai bod angen i blant ag anghenion dysgu ychwanegol ddefnyddio'r dull cadwyno i ddysgu tasgau y gall eraill eu dysgu drwy wylio a dynwared. Mae'n bosib hefyd nad oes gan ddysgwyr ag anghenion ychwanegol yr awydd naturiol i ddysgu tasgau penodol.
Er mwyn dysgu sgiliau bydd gofyn i'r oedolyn gynnig canmoliaeth ar gwblhau pob "dolen" yn y "gadwyn". Felly, er enghraifft, yn achos cau zip ar got, efallai mai bwriad yr oedolyn fyddai dysgu'r sgiliau dros gyfnod – a gwobrwyo pob cam ar hyd y daith:

5. Canfod dy got
6. Gwisgo dy got yn annibynnol
7. Cysylltu'r zip a'i dynnu i fyny
8. Cwblhau'r gyfres gyflawn ar eu pennau eu hunain heb gymorth (gwobr derfynol)

## Cadwyno am yn ôl

Weithiau gall cadwyno fod yn rhy ddwys i ddysgwr a all fagu rhwystredigaeth neu fynd ar goll wrth fynd trwy gyfres o gamau. Mewn sefyllfa fel hyn, efallai y byddai cadwyno am yn ôl yn ddewis da. Wrth gadwyno am yn ôl, mae rhiant neu athro yn gwneud y rhan fwyf o'r tasgau yn y gadwyn, gan alluogi'r plentyn i gwblhau'r dasg derfynol. Mae hyn yn rhoi profiad o lwyddiant a chwblhau i blentyn â phob cynnig. Wrth i'r dasg derfynol ddod yn haws, gall yr oedolyn gilio yn raddol a gadael i'r plentyn gwblhau mwy o gamau yn y gadwyn.

## Enghreifftiau o Gadwyno am yn Ôl

Gall dechrau cau zip fod yn anodd iawn, ond mae cau'r zip unwaith ei fod wedi cydio yn hynod rwydd. Rhannwch y swydd i'r camau hyn:

4. Gwthiwch y rhan waelod ar un ochr i'r zip ar yr ochr arall.
5. Dechreuwch gau y zip yn araf a sicrhau ei fod wedi cydio yn iawn.
6. Tynnwch y zip weddill y ffordd i'w gau.

Gallwch roi'r dasg o gael y plentyn i gau'r zip i'r pen yn fuddugoliaethus ymhell cyn bod y gallu ganddo ef neu hi i ddwyn dwy ran y zip ynghyd.

## Cynghorion

- I ddechrau crëwch restr o gamau'r dasg. Adnabyddir hyn yn gyffredin fel dadansoddi'r dasg
- Dylech arwain â llaw dros law os nad all y plentyn ei ddysgu drwy ddilyn.
- Canmolwch yn dilyn pob cam.